

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

**2023 Rhif 678 (Cy. 100)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**Rheoliadau Ychwanegion Bwyd  
Anifeiliaid (Ffurf Awdurdodiadau  
Dros Dro) (Cyfansoddion  
Cobalt(II)) (Cymru) 2023**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch awdurdodi dros dro, o ran Cymru, ychwanegion bwyd anifeiliaid penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid.

Mae rheoliad 3, ac Atodlenni 1 i 4, yn rhagnodi ffurfiau awdurdodiadau dros dro, o ran Cymru, pedwar ychwanegyn bwyd anifeiliaid.

- Mae Atodlen 1 yn cynnwys y ffurf awdurdodi dros dro ragnodedig ar gyfer cobalt(II) asetad tetrahydrad (rhif adnabod 3b301).
- Mae Atodlen 2 yn cynnwys y ffurf awdurdodi dros dro ragnodedig ar gyfer cobalt(II) carbonad (rhif adnabod 3b302).
- Mae Atodlen 3 yn cynnwys y ffurf awdurdodi dros dro ragnodedig ar gyfer cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad (rhif adnabod 3b303).
- Mae Atodlen 4 yn cynnwys y ffurf awdurdodi dros dro ragnodedig ar gyfer cobalt(II) sylffad heptahydrad (rhif adnabod 3b305).

Gellir cael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw ddogfennaeth y cyfeirir ati yn yr Atodlenni, gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Tŷ Southgate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 1EW neu drwy anfon e-bost i [regulated.products.wales@food.gov.uk](mailto:regulated.products.wales@food.gov.uk).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd

nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2023 Rhif 678 (Cy. 100)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**Rheoliadau Ychwanegion Bwyd  
Anifeiliaid (Ffurf Awdurdodiadau  
Dros Dro) (Cyfansoddion  
Cobalt(II)) (Cymru) 2023**

*Gwnaed* 20 Mehefin 2023

*Gosodwyd* gerbron *Senedd*  
*Cymru* 22 Mehefin 2023

*Yn dod i rym* 14 Gorffennaf 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 15 a 18A(3)(b) o Reoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid(1).

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(2).

**Enwi, rhychwant, cymhwyso a dod i rym**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Ffurf Awdurdodiadau Dros Dro) (Cyfansoddion Cobalt(II)) (Cymru) 2023.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn—

- (a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;
- (b) yn gymwys o ran Cymru;

---

(1) EUR 2003/1831, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/654, 2022/377 a 2022/1351. Diwygiwyd O.S. 2019/654 gan O.S. 2020/1504. Mae'r termau "prescribe" ac "appropriate authority" wedi eu diffinio yn Erthygl 2 o EUR 2003/1831.

(2) EUR 2002/178, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/641; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Diwygiwyd O.S. 2019/641 gan O.S. 2020/1504.

(c) yn dod i rym ar 14 Gorffennaf 2023.

## Dehongli

2.—(1) Mae i ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yn Rheoliad 1831/2003 neu Reoliad 767/2009 yr un ystyr â'r ymadroddion hynny yn Rheoliad 1831/2003 neu Reoliad 767/2009, yn y drefn honno.

(2) Ym mharagraff (1)—

ystyr “Rheoliad 1831/2003” (“*Regulation 1831/2003*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid;

ystyr “Rheoliad 767/2009” (“*Regulation 767/2009*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio<sup>(1)</sup>.

## Ffurf awdurdodiadau dros dro

3.—(1) Mae paragraffau (2) i (5) yn rhagnodi ffurfiau awdurdodiadau dros dro ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid penodol<sup>(2)</sup>.

(2) Mae ffurf awdurdodi dros dro ragnodedig cobalt(II) asetad tetrahydrad (rhif adnabod 3b301) wedi ei nodi yn Atodlen 1.

(3) Mae ffurf awdurdodi dros dro ragnodedig cobalt(II) carbonad (rhif adnabod 3b302) wedi ei nodi yn Atodlen 2.

(4) Mae ffurf awdurdodi dros dro ragnodedig cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohyrad (rhif adnabod 3b303) wedi ei nodi yn Atodlen 3.

(5) Mae ffurf awdurdodi dros dro ragnodedig cobalt(II) sylffad heptahyrad (rhif adnabod 3b305) wedi ei nodi yn Atodlen 4.

*Lynne Neagle*

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru  
20 Mehefin 2023

---

(1) EUR 2009/767, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/654; mae offeryn diwygio arall nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Diwygiwyd O.S. 2019/654 gan O.S. 2020/1504.

(2) Cafodd yr ychwanegion bwyd anifeiliaid eu hawdurdodi dros dro, o ran Cymru, gan benderfyniad gweinyddol Gweinidogion Cymru dyddiedig 20 Mehefin 2023, yn unol ag Erthygl 15 o EUR 2003/1831.

## ATODLEN 1

Rheoliad 3(2)

Ffurf awdurdodi dros dro cobalt(II) asetad tetrahydrad (rhif adnabod 3b301) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid cnoi cil sydd â rwmen gweithredol, equidae, lagomorffiaid, cnofilod, ymlusgiaid sy'n llysysyddion, a mamaliaid sw

Mae'r sylwedd cobalt(II) asetad tetrahydrad, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "cyfansoddion elfennau hybrin", wedi ei awdurdodi dros dro fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	Cobalt(II) asetad tetrahydrad
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	3b301
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Dim un wedi ei bennu
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion maethol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Cyfansoddion elfennau hybrin
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Cobalt(II) asetad tetrahydrad <ul style="list-style-type: none"> <li>• Crisialau/gronigion, yn cynnwys isafswm o 23% o gobalt</li> <li>• Gronynnau &lt; 50 µm: islaw 1%</li> </ul>
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Cobalt(II) asetad tetrahydrad <ul style="list-style-type: none"> <li>• <math>\text{Co}(\text{CH}_3\text{COO})_2 \times 4\text{H}_2\text{O}</math></li> <li>• Rhif CAS<sup>(1)</sup>: 6147-53-1</li> </ul>
<i>Dulliau dadansoddi</i> <sup>(2)</sup>	I adnabod asetad yn yr ychwanegyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monograff 20301 yr <i>European Pharmacopoeia</i><sup>(3)</sup></li> </ul>
	Ar gyfer nodweddiad crisialograffig yr ychwanegyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffreithiant pelydr-X</li> </ul>
	I ganfod cyfanswm y cobalt yn yr ychwanegyn, y rhag-gymysgeddau, y bwyd anifeiliaid cyfansawdd a'r deunyddiau bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sbectrometreg allyriant (atomig) optegol â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017<sup>(4)</sup>), neu</li> <li>• Sbectrometreg allyriant (atomig) optegol â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) ar ôl treulio drwy bwysedd (BS EN 15621:2017<sup>(5)</sup>)</li> </ul>
	I ganfod dosbarthiad maint gronynnau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddiad maint gronynnau — dulliau diffreithiant laser (BS ISO 13320:2020<sup>(6)</sup>)</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anifeiliaid cnoi cil sydd â rwmen gweithredol</li> <li>• Equidae</li> <li>• Lagomorffiaid</li> <li>• Cnofilod</li> <li>• Ymlusgiaid sy'n llysysyddion</li> <li>• Mamaliaid sw</li> </ul>
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys</i> <sup>(7)</sup>	Dim
<i>Uchafswm cynnwys</i> <sup>(7)</sup>	1 (cyfanswm)
<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn mewn bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar ffurf rhag-gymysgedd.

	<p>2. Rhaid datgan ar labeli'r ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd gyfanswm yr elfen (cobalt) sydd wedi ei chynnwys.</p> <p>3. Rhaid datgan y canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar labeli'r ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn Saesneg: "It is recommended to limit the supplementation with cobalt to 0.3 mg/kg in complete feed. In this context, the risk for cobalt deficiency due to local conditions and the specific composition of the diet should be taken into account."</li> <li>• Yn Gymraeg: "Argymhellir cyfyngu ar atchwanegu â chobalt i 0.3 mg/kg mewn bwyd anifeiliaid cyflawn. Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried y risg o ddifyg cobalt oherwydd amodau lleol a chyfansoddiad penodol y deiet."</li> </ul> <p>4. Rhaid datgan y canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar gyfarwyddiadau defnyddio'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn Saesneg: "Protective measures to avoid exposure with cobalt by inhalation or by dermal route should be taken."</li> <li>• Yn Gymraeg: "Dylid cymryd mesurau diogelu i osgoi dod i gysylltiad â chobalt drwy fewnanadlu neu drwy lwybr croenol."</li> </ul>
<i>Dechrau'r cyfnod awdurdodi dros dro</i>	15 Gorffennaf 2023
<i>Diwedd y cyfnod awdurdodi dros dro</i>	Diwedd 14 Gorffennaf 2028

<sup>(1)</sup> CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r sylwedd hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol <https://www.cas.org/cas-data/cas-registry>.

<sup>(2)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "JRC.D.5/FSQ/CvH/PRO/ag/ARES(2012)214390" dyddiedig 24 Chwefror 2012, ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Mae'r ddogfen hon ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: [https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-cobalt-group\\_en](https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-cobalt-group_en).

<sup>(3)</sup> Monograff 20301: 2.3.1 "Identification reactions of ions and functional groups". *European Pharmacopoeia*, Cyfarwyddiaeth Ewropeaidd ar gyfer Ansawdd Meddyginiaethau a Gofal Iechyd, 11eg argraffiad. Cyhoeddwyd Gorffennaf 2022 (ISBN 978 92 871 9105 2). Ar gael gan *European Pharmacopoeia Online* <https://pheur.edqm.eu/home>.

<sup>(4)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15510:2017 "Animal feeding stuffs. Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, iron, zinc, copper, manganese, cobalt, molybdenum, and lead by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94541 0). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(5)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15621:2017 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, sulphur, iron, zinc, copper, manganese and cobalt after pressure digestion by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94543 4). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(6)</sup> O dan y cyfeirnod BS ISO 13320:2020 "Particle size analysis. Laser diffraction methods". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Gorffennaf 2020 (ISBN 978 0 580 92329 6). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(7)</sup> Cynnwys yr elfen (cobalt) mewn mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

## ATODLEN 2

Rheoliad 3(3)

Ffurf awdurdodi dros dro cobalt(II) carbonad (rhif adnabod 3b302) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid cnoi cil sydd â rwmn gweithredol, equidae, lagomorffiaid, cnofilod, ymlusgiaid sy'n llysysyddion, a mamaliaid sw

Mae'r sylwedd cobalt(II) carbonad, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "cyfansoddion elfennau hybrin", wedi ei awdurdodi dros dro fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	Cobalt(II) carbonad
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	3b302
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Dim un wedi ei bennu
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion maethol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Cyfansoddion elfennau hybrin
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	<p>Cobalt(II) carbonad</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Powdr, yn cynnwys isafswm o 46% o gobalt</li> <li>• Cobalt carbonad: isafswm o 75%</li> <li>• Cobalt hydrocsid: 3% - 15%</li> <li>• Dŵr: uchafswm o 6%</li> <li>• Gronynnau &lt; 11 µm: islaw 90%</li> </ul>
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	<p>Cobalt(II) carbonad</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <math>\text{CoCO}_3</math></li> <li>• Rhif CAS<sup>(1)</sup>: 513-79-1</li> </ul>
<i>Dulliau dadansoddi</i> <sup>(2)</sup>	I adnabod carbonad yn yr ychwanegyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monograff 20301 yr <i>European Pharmacopoeia</i><sup>(3)</sup></li> </ul>
	Ar gyfer nodweddiad crisialograffig yr ychwanegyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffreithiant pelydr-X</li> </ul>
	I ganfod cyfanswm y cobalt yn yr ychwanegyn, y rhag-gymysgeddau, y bwyd anifeiliaid cyfansawdd a'r deunyddiau bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sbectrometreg allyriant (atomig) optegol â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017<sup>(4)</sup>), neu</li> <li>• Sbectrometreg allyriant (atomig) optegol â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) ar ôl treulio drwy bwysedd (BS EN 15621:2017<sup>(5)</sup>)</li> </ul>
	I ganfod dosbarthiad maint gronynnau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddiad maint gronynnau — dulliau diffreithiant laser (BS ISO 13320:2020<sup>(6)</sup>)</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu categori o anifail</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anifeiliaid cnoi cil sydd â rwmn gweithredol</li> <li>• Equidae</li> <li>• Lagomorffiaid</li> <li>• Cnofilod</li> <li>• Ymlusgiaid sy'n llysysyddion</li> <li>• Mamaliaid sw</li> </ul>
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys</i> <sup>(7)</sup>	Dim
<i>Uchafswm cynnwys</i> <sup>(7)</sup>	1 (cyfanswm)

<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn mewn bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar ffurf rhag-gymysgedd. Rhaid rhoi'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd hwn ar y farchnad ar ffurf nad yw'n bowdr.
	2. Rhaid datgan ar labeli'r ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd gyfanswm yr elfen (cobalt) sydd wedi ei chynnwys.
	3. Rhaid datgan y canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar labeli'r ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn Saesneg: "It is recommended to limit the supplementation with cobalt to 0.3 mg/kg in complete feed. In this context, the risk for cobalt deficiency due to local conditions and the specific composition of the diet should be taken into account."</li> <li>• Yn Gymraeg: "Argymhellir cyfyngu ar atchwanegu â chobalt i 0.3 mg/kg mewn bwyd anifeiliaid cyflawn. Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried y risg o ddiffyg cobalt oherwydd amodau lleol a chyfansoddiad penodol y deiet."</li> </ul>
	4. Rhaid datgan y canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar gyfarwyddiadau defnyddio'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn Saesneg: "Protective measures to avoid exposure with cobalt by inhalation or by dermal route should be taken."</li> <li>• Yn Gymraeg: "Dylid cymryd mesurau diogelu i osgoi dod i gysylltiad â chobalt drwy fewnanadlu neu drwy lwybr croenol."</li> </ul>
<i>Dechrau'r cyfnod awdurdodi dros dro</i>	15 Gorffennaf 2023
<i>Diwedd y cyfnod awdurdodi dros dro</i>	Diwedd 14 Gorffennaf 2028

<sup>(1)</sup> CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r sylwedd hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol <https://www.cas.org/cas-data/cas-registry>

<sup>(2)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "JRC.D.5/FSQ/CvH/PRO/ag/ARES(2012)214390" dyddiedig 24 Chwefror 2012, ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Mae'r ddogfen hon ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: [https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-cobalt-group\\_en](https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-cobalt-group_en).

<sup>(3)</sup> Monograff 20301: 2.3.1 "Identification reactions of ions and functional groups". *European Pharmacopoeia*, Cyfarwyddiaeth Ewropeaidd ar gyfer Ansawdd Meddyginiaethau a Gofal Iechyd, 11eg argraffiad. Cyhoeddwyd Gorffennaf 2022 (ISBN 978 92 871 9105 2). Ar gael gan *European Pharmacopoeia Online* <https://pheur.edqm.eu/home>.

<sup>(4)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15510:2017 "Animal feeding stuffs. Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, iron, zinc, copper, manganese, cobalt, molybdenum, and lead by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94541 0). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(5)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15621:2017 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, sulphur, iron, zinc, copper, manganese and cobalt after pressure digestion by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94543 4). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(6)</sup> O dan y cyfeirnod BS ISO 13320:2020 "Particle size analysis. Laser diffraction methods". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Gorffennaf 2020 (ISBN 978 0 580 92329 6). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(7)</sup> Cynnwys yr elfen (cobalt) mewn mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.



## ATODLEN 3

Rheoliad 3(4)

Ffurf awdurdodi dros dro cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad (rhif adnabod 3b303) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid cnoi cil sydd â rwmn gweithredol, equidae, lagomorffiaid, cnofilod, ymlusgiaid sy'n llysysyddion, a mamaliaid sw

Mae'r sylwedd cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "cyfansoddion elfennau hybrin", wedi ei awdurdodi dros dro fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	Cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	3b303
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Dim un wedi ei bennu
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion maethol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Cyfansoddion elfennau hybrin
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad <ul style="list-style-type: none"> <li>• Powdr, yn cynnwys isafswm o 50% o gobalt</li> <li>• Gronynnau &lt; 50 µm: islaw 98%</li> </ul>
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad <ul style="list-style-type: none"> <li>• <math>2\text{CoCO}_3 \times 3\text{Co(OH)}_2 \times \text{H}_2\text{O}</math></li> <li>• Rhif CAS<sup>(1)</sup>: 51839-24-8</li> </ul>
<i>Dulliau dadansoddi<sup>(2)</sup></i>	I adnabod carbonad yn yr ychwanegyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monograff 20301 yr <i>European Pharmacopoeia</i><sup>(3)</sup></li> </ul>
	Ar gyfer nodweddiad crisialograffig yr ychwanegyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffreithiant pelydr-X</li> </ul>
	I ganfod cyfanswm y cobalt yn yr ychwanegyn, y rhag-gymysgeddau, y bwyd anifeiliaid cyfansawdd a'r deunyddiau bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sbectrometreg allyriant (atomig) optegol â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017<sup>(4)</sup>), neu</li> <li>• Sbectrometreg allyriant (atomig) optegol â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-AES) ar ôl treulio drwy bwysedd (BS EN 15621:2017<sup>(5)</sup>)</li> </ul>
	I ganfod dosbarthiad maint gronynnau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddiad maint gronynnau — dulliau diffreithiant laser (BS ISO 13320:2020<sup>(6)</sup>)</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu categori o anifail</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anifeiliaid cnoi cil sydd â rwmn gweithredol</li> <li>• Equidae</li> <li>• Lagomorffiaid</li> <li>• Cnofilod</li> <li>• Ymlusgiaid sy'n llysysyddion</li> <li>• Mamaliaid sw</li> </ul>
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys<sup>(7)</sup></i>	Dim
<i>Uchafswm cynnwys<sup>(7)</sup></i>	1 (cyfanswm)
<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn mewn bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar ffurf rhag-gymysgedd. Rhaid rhoi'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd hwn ar y farchnad ar ffurf nad yw'n bowdr.

	<p>2. Rhaid datgan ar labeli'r ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd gyfanswm yr elfen (cobalt) sydd wedi ei chynnwys.</p> <p>3. Rhaid datgan y canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar labeli'r ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn Saesneg: "It is recommended to limit the supplementation with cobalt to 0.3 mg/kg in complete feed. In this context, the risk for cobalt deficiency due to local conditions and the specific composition of the diet should be taken into account."</li> <li>• Yn Gymraeg: "Argymhellir cyfyngu ar atchwanegu â chobalt i 0.3 mg/kg mewn bwyd anifeiliaid cyflawn. Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried y risg o ddiffyg cobalt oherwydd amodau lleol a chyfansoddiad penodol y deiet."</li> </ul> <p>4. Rhaid datgan y canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar gyfarwyddiadau defnyddio'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn Saesneg: "Protective measures to avoid exposure with cobalt by inhalation or by dermal route should be taken."</li> <li>• Yn Gymraeg: "Dylid cymryd mesurau diogelu i osgoi dod i gysylltiad â chobalt drwy fewnanadlu neu drwy lwybr croenol."</li> </ul>
<i>Dechrau'r cyfnod awdurdodi dros dro</i>	15 Gorffennaf 2023
<i>Diwedd y cyfnod awdurdodi dros dro</i>	Diwedd 14 Gorffennaf 2028

<sup>(1)</sup> CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r sylwedd hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol <https://www.cas.org/cas-data/cas-registry>.

<sup>(2)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "JRC.D.5/FSQ/CvH/PRO/ag/ARES(2012)214390" dyddiedig 24 Chwefror 2012, ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Mae'r ddogfen hon ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: [https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-cobalt-group\\_en](https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-cobalt-group_en).

<sup>(3)</sup> Monograff 20301: 2.3.1 "Identification reactions of ions and functional groups". *European Pharmacopoeia*, Cyfarwyddiaeth Ewropeaidd ar gyfer Ansawdd Meddyginiaethau a Gofal Iechyd, 11eg argraffiad. Cyhoeddwyd Gorffennaf 2022 (ISBN 978 92 871 9105 2). Ar gael gan *European Pharmacopoeia Online* <https://pheur.edqm.eu/home>.

<sup>(4)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15510:2017 "Animal feeding stuffs. Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, iron, zinc, copper, manganese, cobalt, molybdenum, and lead by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94541 0). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(5)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15621:2017 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, sulphur, iron, zinc, copper, manganese and cobalt after pressure digestion by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94543 4). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(6)</sup> O dan y cyfeirnod BS ISO 13320:2020 "Particle size analysis. Laser diffraction methods". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Gorffennaf 2020 (ISBN 978 0 580 92329 6). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(7)</sup> Cynnwys yr elfen (cobalt) mewn mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

## ATODLEN 4

Rheoliad 3(5)

Ffurf awdurdodi dros dro cobalt(II) sylffad heptahydrad (rhif adnabod 3b305) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid cnoi cil sydd â rwmen gweithredol, equidae, lagomorffiaid, cnofilod, ymlusgiaid sy'n llysysyddion, a mamaliaid sw

Mae'r sylwedd cobalt(II) sylffad heptahydrad, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "cyfansoddion elfennau hybrin", wedi ei awdurdodi dros dro fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	Cobalt(II) sylffad heptahydrad
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	3b305
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Dim un wedi ei bennu
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion maethol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Cyfansoddion elfennau hybrin
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Cobalt(II) sylffad heptahydrad <ul style="list-style-type: none"> <li>• Powdr, yn cynnwys isafswm o 20% o gobalt</li> <li>• Gronynnau &lt; 50 µm: islaw 95%</li> </ul>
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Cobalt(II) sylffad heptahydrad <ul style="list-style-type: none"> <li>• <math>\text{CoSO}_4 \times 7\text{H}_2\text{O}</math></li> <li>• Rhif CAS<sup>(1)</sup>: 10026-24-1</li> </ul>
<i>Dulliau dadansoddi<sup>(2)</sup></i>	I adnabod sylffad yn yr ychwanegyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Monograff 20301 yr <i>European Pharmacopoeia</i><sup>(3)</sup></li> </ul>
	Ar gyfer nodweddiad crisialograffig yr ychwanegyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffreithiant pelydr-X</li> </ul>
	I ganfod cyfanswm y cobalt yn yr ychwanegyn, y rhag-gymysgeddau, y bwyd anifeiliaid cyfansawdd a'r deunyddiau bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sbectrometreg allyriant (atomig) optegol â phlasma a gyplwyd yn anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017<sup>(4)</sup>), neu</li> <li>• Sbectrometreg allyriant (atomig) optegol â phlasma a gyplwyd yn anwythol (ICP-AES) ar ôl treulio drwy bwysedd (BS EN 15621:2017<sup>(5)</sup>)</li> </ul>
	I ganfod dosbarthiad maint gronynnau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddiad maint gronynnau — dulliau diffreithiant laser (BS ISO 13320:2020<sup>(6)</sup>)</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu categori o anifail</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anifeiliaid cnoi cil sydd â rwmen gweithredol</li> <li>• Equidae</li> <li>• Lagomorffiaid</li> <li>• Cnofilod</li> <li>• Ymlusgiaid sy'n llysysyddion</li> <li>• Mamaliaid sw</li> </ul>
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys<sup>(7)</sup></i>	Dim
<i>Uchafswm cynnwys<sup>(7)</sup></i>	1 (cyfanswm)
<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn mewn bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar ffurf rhag-gymysgedd. Rhaid rhoi'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd hwn ar y farchnad ar ffurf nad yw'n bowdr.

	<p>2. Rhaid datgan ar labeli'r ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd gyfanswm yr elfen (cobalt) sydd wedi ei chynnwys.</p> <p>3. Rhaid datgan y canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar labeli'r ychwanegyn a'r rhag-gymysgedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn Saesneg: "It is recommended to limit the supplementation with cobalt to 0.3 mg/kg in complete feed. In this context, the risk for cobalt deficiency due to local conditions and the specific composition of the diet should be taken into account."</li> <li>• Yn Gymraeg: "Argymhellir cyfyngu ar atchwanegu â chobalt i 0.3 mg/kg mewn bwyd anifeiliaid cyflawn. Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried y risg o ddiffyg cobalt oherwydd amodau lleol a chyfansoddiad penodol y deiet."</li> </ul> <p>4. Rhaid datgan y canlynol, yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg, ar gyfarwyddiadau defnyddio'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn Saesneg: "Protective measures to avoid exposure with cobalt by inhalation or by dermal route should be taken."</li> <li>• Yn Gymraeg: "Dylid cymryd mesurau diogelu i osgoi dod i gysylltiad â chobalt drwy fewnanadlu neu drwy lwybr croenol."</li> </ul>
<i>Dechrau'r cyfnod awdurdodi dros dro</i>	15 Gorffennaf 2023
<i>Diwedd y cyfnod awdurdodi dros dro</i>	Diwedd 14 Gorffennaf 2028

<sup>(1)</sup> CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r sylwedd hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol <https://www.cas.org/cas-data/cas-registry>.

<sup>(2)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "JRC.D.5/FSQ/CvH/PRO/ag/ARES(2012)214390" dyddiedig 24 Chwefror 2012, ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Mae'r ddogfen hon ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: [https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-cobalt-group\\_en](https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-cobalt-group_en).

<sup>(3)</sup> Monograff 20301: 2.3.1 "Identification reactions of ions and functional groups". *European Pharmacopoeia*, Cyfarwyddiaeth Ewropeaidd ar gyfer Ansawdd Meddyginiaethau a Gofal Iechyd, 11eg argraffiad. Cyhoeddwyd Gorffennaf 2022 (ISBN 978 92 871 9105 2). Ar gael gan *European Pharmacopoeia Online* <https://pheur.edqm.eu/home>.

<sup>(4)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15510:2017 "Animal feeding stuffs. Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, iron, zinc, copper, manganese, cobalt, molybdenum, and lead by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94541 0). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(5)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15621:2017 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, sulphur, iron, zinc, copper, manganese and cobalt after pressure digestion by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94543 4). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(6)</sup> O dan y cyfeirnod BS ISO 13320:2020 "Particle size analysis. Laser diffraction methods". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Gorffennaf 2020 (ISBN 978 0 580 92329 6). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(7)</sup> Cynnwys yr elfen (cobalt) mewn mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.